



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYFEIRLYFR MODYLAU

BA ADDYSG GYNRADD GYDA SAC LEFEL 6

DISGYBLAETH ACADEMAIDD: ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON

YR ATHROFA

2018-2019

TUDALEN GYNNWYS

Rhif Tud

CYFLWYNIAD..... 1

MODYLAU 2

CYFLWYNIAD

Mae'r Cyfeiriadur Modylau hwn yn cynnwys yr holl fodylau ar gyfer Lefel 6 o fewn y rhaglen BA Addysg Gynradd gyda SAC ym mlwyddyn academiaidd 2018-2019.

Mae'r cyfeiriadur hwn yn mynd gyda'r Llawlyfr Rhaglen Astudio, a fydd yn rhoi manylion y modylau y byddwch yn eu hastudio ar gyfer eich rhaglen eleni yn yr adran 'Rhaglen Astudio'. Gall y cyfeiriadur hwn gynnwys modylau sy'n rhedeg ar raglenni astudio eraill o fewn eich Ysgol/Cyfadrn. Os oes angen cymorth arnoch i adnabod modylau eich rhaglen astudio, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Rhaglen (y mae ei enw a'i fanylion cyswllt wedi'u rhoi yn y Llawlyfr Rhaglen Astudio sy'n mynd gyda'r ddogfen hon), neu Swyddfa'r Gyfadrn berthnasol.

Mae'r Brifysgol wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth mor lawn a chywir â phosibl, ond dylech nodi ei bod yn anochel y bydd rhai mân newidiadau yn digwydd i drefniadaeth y modylau rhwng y cyfnod cynllunio ac amser addysgu'r modylau. Byddwn yn ceisio sicrhau y bydd cyn lleied o newidiadau â phosibl, ac fe gewch ddigon o rybudd o flaen llaw os bydd unrhyw newid. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe baech yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau defnyddiol y gallem eu gwneud i'r llawlyfr yn y dyfodol.

MODYLAU

COD Y MODWL: ECAD6001C
TEITL: Egwyddorion Arfer a Chynnydd
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 6
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o ddilyniant trwy feithrin astudiaeth cynyddol annibynnol ymhlith myfyrwyr gan ddefnyddio dull dysgu seiliedig ar broblemau.
- Datblygu dealltwriaeth o'r ddogfennaeth a'r polisïau statudol sydd wrth wraidd addysg a gofal plant yng Nghymru.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Gyfosod a gwerthuso'n feirniadol fentrau a luniwyd i sicrhau trosglwyddo effeithiol a dangos hyder a hyblygrwydd wrth nodi a diffinio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar drosglwyddo disgyblion o un cyd-destun ysgol i un arall.
- Dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd datblygu a chynnal cysylltiadau proffesiynol i gyfoethogi ansawdd dysgu gan blant.
- Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a materion yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol gan gynnwys deddfwriaeth a pholisi cyfredol yng Nghymru ac Ewrop.
- Gwerthuso'n feirniadol wybodaeth yn ymwneud â bywyd proffesiynol athrawon, e.e. rolau a chyfrifoldebau i sicrhau cynnydd, athrawon a'r gyfraith, deddfwriaeth berthnasol, dogfennau Cynulliad Cymru, cyhoeddiadau Estyn, y Ddeddf Cydraddoldeb, Cod Ymarfer AAA a chanllawiau eraill ar foeseg broffesiynol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Ymchwiliad o'r fframwaith hanesyddol a chyfreithiol gan gyfeirio'n benodol at y cyd-destun Cymreig o ran dilyniant, e.e. Rheoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006, gan ymchwilio i faterion Trosglwyddo a Phontio: er enghraifft, effaith bosibl trosglwyddiadau ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion.

- Archwilir mentrau trosglwyddo'r Llywodraeth a'r Awdurdod Lleol, megis defnyddio unedau pontio yn y cwricwlwm, y Strategaeth Genedlaethol Uwchradd, canllawiau Estyn a'r Cynulliad Cenedlaethol e.e. 'Symud Ymlaen', Gweithgaredd 1 (Cwricwlwm Ysgolion) y Gronfa Ysgolion Gwell. Bydd cynrychiolwyr gwadd o ysgolion ac AALI yn annerch hyfforddeion ynglŷn â'u profiadau trosglwyddo, er enghraifft defnyddio unedau pontio.
- Ystyriaeth o ansawdd y wybodaeth ynghylch cyrhaeddiad blaenorol disgyblion er mwyn cynllunio ar gyfer dilyniant o'r cartref i'r ysgol, trwy'r cyfnodau cynradd; o'r cyfnod Sylfaen i Flwyddyn 3 ac o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Materion yn ymwneud â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg o gartrefi di-Gymraeg. Bydd yr hyfforddeion yn gweithio mewn grwpiau ar bwnc/destun cwricwlaidd ac yn archwilio sut y gellid defnyddio hwn i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng dau gyfnod e.e. cartref/meithrin; y Cyfnod Sylfaen/Blwyddyn 3; cyfnodau cynradd uwch ac uwchradd is a thu hwnt.
- Trafod cynnydd – rhwng Meithrin/Cyfnod Sylfaen/CA2 a rhwng ysgol Gynradd ac Uwchradd: canfyddiadau o arolygon barn disgyblion, rhieni ac athrawon. Materion yn ymwneud â'r cyd-destun penodol Gymreig a materion byd-eang yn ymwneud â dilyniant disgyblion unigol a rhwystrau i ddilyniant.
- Archwilio ac adfyfrio ar bolisiâu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol i ddisgyblion, rhieni, athrawon a chymunedau dysgu, gan sicrhau meddylfryd addysgegol ar gyfer newid trawsffurfiol cadarnhaol trwy fynd i'r afael â chysyniadau allweddol megis cynhwysiant, amrywiaeth a chyfle cyfartal.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd a gweithdai'n cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Bydd tiwtorialau a seminarau yn cyflwyno enghreifftiau ymarferol a ddefnyddir i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgwyd. Yn ogystal, defnyddir astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth o'r technegau a'u cymhwyso.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 50%

Cyflwyniad Fideo unigol yn seiliedig ar ymateb beirniadol i Senario DSB sy'n archwilio dilyniant yn yr ysgol gynradd (10 munud).

Elfen Asesu 2 - 50%

Arholiad (3 awr)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:
Trafodwch yn feirniadol strategaethau a ddefnyddir i baratoi disgyblion i gamu ymlaen o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	50%
Gwaith cwrs	0%
Ymarferol	50%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Trwy ddefnyddio dull dysgu seiliedig ar broblemau ac adnoddau fideo sy'n cyfyngu'r angen am ddarpariaeth anghynaliadwy ar bapur.	

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD6001C	
Teitl y Modwl	Egwyddorion Arfer a Chynnydd	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Arshad, R., Wrigley, T., Pratt, L. (Ed by) (2012) <i>Social Justice re-examined: dilemmas and solutions for the classroom teacher</i> , London: IOE Press.	☐
Hanfodol	Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2004) <i>Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau</i> , Caerdydd: Cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru.	☒
Hanfodol	Donaldson, G. (2015) <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.	☒
Hanfodol	Estyn. (2003) <i>Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: symud ymlaen – pontio effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3</i> , Caerdydd: Estyn	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. (2015) <i>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru.	☒
Hanfodol	Symonds, J. (2015) <i>Understanding School Transition: What happens to children and how to help them</i> . Oxon: Routledge	☒
Pellach	Arthur, J., Grainger, T. & Wray, D. (2014) <i>Learning To Teach in the Primary School</i> . Oxon: Routledge.	☐
Pellach	Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (2002) <i>Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 – Dogfen drafod</i> , Caerdydd: LICC.	☒
Pellach	Fabian, H & Dunlop, A Ed by (2009) <i>Transitions in the early Years</i> , Oxon: Routledge.	☐

Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2004) <i>Anelu at ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: Pontio'r bwlch. Datblygu a defnyddio unedau pontio i gefnogi pontio effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3</i> , Caerdydd: LICC.	☒
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2006) <i>Canllawiau ar baratoi Cynlluniau Pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3</i> , Caerdydd: LICC.	☒

COD Y MODWL: ECAD6002C
TEITL: Profiadau Addysgu Proffesiynol 3 – Athrawon, Ysgolion a'r Gymuned Ehangach
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 6
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Atgyfnerthu ymagwedd broffesiynol yr athrawon dan hyfforddiant at addysgeg dosbarth a rheolaeth dosbarth gan gynnwys pwysigrwydd gweithio gyda rhanddeiliaid o fewn amgylchedd ysgol.
- Cyfoethogi datblygiad proffesiynol ehangach ymholiad adfyfyriol athrawon dan hyfforddiant drwy ystyried rôl ysgolion o fewn y gymuned ehangach a phwysigrwydd dadansoddi data.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Ymchwilio, cynllunio a pharatoi'n gynhwysfawr i gyflwyno sesiynau yn y tymor canolig a'r tymor byr ar gyfer ystod y gallu yn y dosbarth.
- Adfyfyrio'n feirniadol ar eu profiad addysgu a defnyddio'r adfyfyrio hwn yn sylfaen i ddynodi eu hanghenion datblygu proffesiynol yn eu gyrfa gynnar ac yn y dyfodol.
- Gwerthfawrogi'n feirniadol rôl asesu, cofnodi, adrodd ac atebolrwydd o fewn ysgol, gan ddangos dealltwriaeth glir o bwysigrwydd dadansoddi data a gweithio gyda'r holl randdeiliaid i hyrwyddo dysgu a gwella ysgolion.
- Dangos ymwybyddiaeth feirniadol o'r rhyngweithio rhwng ysgolion cynradd, consortia, llywodraethwyr a gwahanol fathau o gymunedau oddi mewn i Gymru.

CYNNWYS DANGOSOL

- Paratoi: treulir cyfnod o amser gyda chydweithwyr proffesiynol o fewn y lleoliad addysgol cyn dechrau'r cyfnod a asesir. Bydd yr athro dan hyfforddiant yn gweithio mewn cydweithrediad ag Uwch Fentor neu Fentor a thiwtor y Brifysgol i gynllunio yn y tymor canolig a'r tymor byr yn unol â disgwyliadau'r Brifysgol. Caiff y gwaith cynllunio a pharatoi ei fonitro gan diwtoriaid y Brifysgol cyn y profiad addysgu.
- Bydd sesiynau yn y Brifysgol yn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn hollol ymwybodol o ddisgwyliadau'r profiad addysgu proffesiynol, yn cynnwys sylw dyledus i oblygiadau moesegol gweithio gyda phlant. Bydd tasgau cyfeiriol yn cefnogi unigolion gyda'u gwaith paratoi.
- Atgyfnerthir materion diogelu a materion bywyd proffesiynol ehangach (yn cynnwys polisi'r Ganolfan, arferion cenedlaethol a lleol) cyn y profiad addysgu proffesiynol terfynol.

- Bloc addysgu wyth wythnos gyda'r cyfnod dewisedig, naill ai'r Cyfnod Sylfaen neu Gyfnod Allweddol 2. Bydd yr athro dan hyfforddiant yn addysgu 50-60% o'r amserlen addysgu a bydd yn cael ei gefnogi a'i asesu gan staff yr ysgol a'r Brifysgol drwy gydol y cyfnod. Darperir asesiadau ffurfiannol yn rheolaidd a disgwylir i athrawon dan hyfforddiant fonitro'u cynnydd eu hun yn wythnosol.
- Gosod targedau a Datblygiad Proffesiynol: Trwy gydol y modwl, bydd disgwyl i'r athro dan hyfforddiant gasglu gwybodaeth yn ei Bortffolio Datblygiad Proffesiynol i ddynodi cynnydd tuag at gyflawni Safonau SAC. Bydd hyn yn ffurfio sylfaen yr adfyfrio wedi'r profiad a'r gosod targedau ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach.
- Bydd y modwl yn archwilio rôl ysgolion o fewn cyd-destun y gymuned ehangach.
- Sylw pellach i asesu, cofnodi, adrodd ac atebolrwydd: polisïau marcio ac asesu ysgolion, yn cynnwys meincnodau; portffolios; tracio cynnydd; profion asesu safonedig a disgrifiadau lefel; dehongli data asesu yn cynnwys data teulu o ysgolion; adrodd i rieni/gofalwyr; adroddiadau statudol diwedd cyfnod allweddol.
- Rhieni fel cyd-addysgwyr ac addysg ddewisol yn y cartref: **rhesymau dros addysgu yn y cartref a dulliau o wneud hynny.**
- **Y cefndir hanesyddol a'r gyfraith.**
- Ysgolion, Consortia ac Awdurdodau Lleol – rôl llywodraethwyr ac awdurdodau lleol/consortia.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion.

Lle bo hynny'n berthnasol gwahoddir siaradwyr allanol i annerch y garfan.

Nodwedd bwysig o'r modwl fydd y profiad addysgu proffesiynol, gyda'r athro dan

hyfforddiant yn cael ei annog i weithio tuag at lefel berthnasol y Safonau Statws

Athro Cymwysedig, gan gadw cofnodion trylwyr o waith cynllunio, cyflwyno ac asesu,

ynghyd ag adfyfrio parhaus a chasglu tystiolaeth drwy gydol cyfnod y lleoliad.

O ddechrau'r lleoliad cefnogir pob athro dan hyfforddiant yn unigol gan diwtor

Prifysgol a fydd yn monitro cynnydd o ran cynllunio a pharatoi ac a fydd ar gael i

gynorthwyo'r myfyriwr.

Bydd y mentor/athro dosbarth yn yr ysgol yn arsylwi'n rheolaidd ar gynnydd ac yn

ffurfio barn o ran lefelau, a goruchwylir hynny gan diwtor Prifysgol ynghyd â

chymedrolwr yn y Brifysgol a fydd yn cadw trosolwg o safonau'r garfan gyfan.

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	37	19%
Dysgu annibynnol	25	12%
Dysgu drwy leoliadau	138	69%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Profiad Addysgu Proffesiynol – lleoliad, adfyfrio a dogfennaeth

Asesir athrawon dan hyfforddiant yn erbyn Safonau Statws Athro Cymwysedig Lefel

6 (Cylchlythyr 25/2009 Llywodraeth Cymru). Ffurfir barn grynodol ar gyfer pob un o

gelloedd y safonau, sef Gwerthoedd ac Arferion Proffesiynol, Gwybodaeth a

Dealltwriaeth ac Addysgu (Cynllunio, Disgwyliadau a Thargedau, Monitro ac Asesu ac Addysgu a Rheoli Dosbarth).

Cadarnheir dyfarniadau terfynol gan y Tiwtor Prifysgol a'r Mentor Ysgol gyda chymorth sesiwn arsylwi ar y cyd.

Llwyddo/Methu SAC

Elfen Asesu - 100%

Cyflwyniad grŵp gyda marc unigol yn seiliedig ar ddadansoddiad beirniadol o ddata ysgol. (cyfwerth â 2000 o eiriau).

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Trwy ddatblygu gwybodaeth am gymunedau hyfyw a diogel sydd ag addysg yn ganolog iddynt.	

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD6002C	
Teitl y Modwl	Profiadau Addysgu Proffesiynol 3 – Athrawon, Ysgolion a'r Gymuned Ehangach	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Day, C. et al. (2009) <i>Leading Schools in Times of Change</i> , Buckingham: Open University Press.	☐
Hanfodol	Dimmock, C. (2010) <i>Designing the Learning-Centred School</i> , London: Falmer.	☐
Hanfodol	Estyn (2014) <i>Difreintedd</i> , Caerdydd: Estyn.	☒
Hanfodol	Higgins, S., Katsaptaki, M., Coe, R. and Kokotsaki, D. (2013). <i>The Sutton Trust-Education Endowment Foundation Teaching and Learning Toolkit: Technical Appendices</i> . 1st ed. [ebook] Durham: The Sutton Trust. Available at: https://v1.educationendowmentfoundation.org.uk/uploads/pdf/Technical_Appendices (June 2013).pdf [Accessed 11 Dec. 2016].	☒
Hanfodol	Hopkins, D. (2007) <i>School Improvement for Real</i> , London: Routledge Falmer.	☒
Hanfodol	Preedy, M., Glatter, R. & Wise, C. (2003) <i>Strategic Leadership and Educational Improvement</i> , London: Paul Chapman Publishing.	☐
Hanfodol	West-Burnham, J., Farrar, M. & Otero, G. (2007) <i>Schools and Communities: working together to</i>	☐

	<i>transform children's lives</i> , London: Network Continuum Education.	
Pellach	Bennett, N., Crawford, M. & Cartwright, M. (eds) (2003) <i>Effective Educational Leadership</i> , London: Paul Chapman Publishing.	☐
Pellach	Collarbone, P. (2009) <i>Creating Tomorrow: Planning, developing and sustaining change in education and other public services</i> , London: Network Continuum.	☐
Pellach	Collarbone, P. & West-Burnham, J. (2008) <i>Understanding Systems Leadership: securing excellence and equity in education</i> , London: Network Continuum.	☒
Pellach	Davies, B. & West-Burnham, J. (eds) (2003) <i>The Handbook of Educational Leadership and Management</i> , London: Pearson.	☐
Pellach	Dimmock, C. (2000) <i>Designing the Learning-Centred School</i> , London: Falmer.	☐
Pellach	Earley, P. & Weindling, D. (2005) <i>Understanding School Leadership</i> , London: Paul Chapman Publishing.	☐
Pellach	Fink, D. (2005) <i>Leadership for Mortals: Developing and sustaining leaders of learning</i> , California: Corwin Press.	☐
Pellach	Fullan, M. (2006) <i>Turnaround Leadership</i> , San Francisco: Jossey-Bass.	☐
Pellach	Harris, A. (2002) <i>School Improvement: What's in it for schools?</i> London: Routledge Falmer.	☐
Pellach	Harris, A. (2002) <i>School Improvement: What's in it for schools?</i> London: Routledge Falmer.	☐
Pellach	James, C., Conolly, M., Dunning, G. & Elliott, T. (2006) <i>How Very Effective Primary Schools Work</i> , London: Paul Chapman Publishing.	☐
Pellach	Jones, J. (2005) <i>Management Skills in Schools: A resource for school leaders</i> . London: Paul Chapman Publishing.	☐
Pellach	Kydd, L., Anderson, L. & Newton, W. (2003) <i>Leading People and Teams in Education</i> , London: Paul Chapman Publishing.	☐
Pellach	Stoll, L. & Fink, D. (2006) <i>Changing our Schools: Linking School Effectiveness and School Improvement</i> , Buckingham: Open University Press.	☐

COD Y MODWL: ECAD6003C
TEITL: Yr Ymarferydd Adfyfyriol
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 6
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Archwilio'n feirniadol ystod o safbwyntiau a fframweithiau damcaniaethol sy'n berthnasol i'r ysgol gynradd a defnyddio'r rhain i lywio'r gwaith o ddylunio, gweithredu a gwerthuso prosiect ymchwil ymarferol, seiliedig ar dystiolaeth, gyda'r bwriad o ddatblygu arfer dosbarth.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Ddewis maes arfer proffesiynol i'w ddatblygu a mynegi dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y maes hwn a fframweithiau damcaniaethol a pholisi perthnasol.
- Gwerthuso'n feirniadol ystod o destunau perthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi, i nodi cysyniadau allweddol a defnyddio'r rhain i ffurfio dulliau addas ar gyfer arfer dosbarth.
- Amlinellu'n feirniadol resymwaith ar gyfer dyluniad ymchwil priodol i strwythuro a rhoi'r dulliau hyn ar bawf.
- Nodi a mynd i'r afael â'r materion moesegol ac ansawdd perthnasol wrth gynllunio a gweithredu prosiect ymchwil.

CYNNWYS DANGOSOL

- Trosolwg o ymchwil a'r ymarferydd adfyfyriol – cysyniadau ymchwil; yr angen am ymchwil; yr angen am arfer dosbarth sy'n seiliedig ar dystiolaeth; mathau o ymchwil; camau wrth gynnal ymchwil; rôl ymchwil wrth helpu gwella ansawdd y broses addysgu a dysgu; darllen a dehongli ymchwil.
- Datblygu cysylltiadau cryf rhwng theori ac arfer ac archwilio'r cydgysylltiad rhwng damcaniaethau addysgol ac arferion dosbarth. Cyfuno gwybodaeth o astudiaeth academiaidd ac ymchwil gyda phrofiad ymarferol yn yr ysgol a'r ystafell ddosbarth.
- Arfer yn seiliedig ar ymholi – defnyddio sgiliau sy'n canolbwyntio ar ymchwil i weld beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim o ran arfer dosbarth. Defnyddio data o nifer o ffynonellau i ddynodi problemau ynghyd ag ymyriadau sy'n debygol o arwain at welliannau.
- Adolygiad o faterion moesegol a chyfreithiol yn y broses ymchwil.
- Adolygu llenyddiaeth a dadansoddi ymchwil cyfredol yn feirniadol – strategaethau chwilio llenyddiaeth; llunio llyfryddiaeth ymchwil.

- Defnyddio data gwreiddiol (megis cyfweiliadau; arsylwi; ymchwil weithredol; astudiaethau achos; hanes bywyd; holiaduron; ymchwil ethnograffig) a data eilaidd (megis ymchwil flaenorol; ystadegau swyddogol; adroddiadau llywodraeth; gwybodaeth o'r we a gwybodaeth hanesyddol).
- Datblygu cwestiwn/hypothesis ymchwil.
- Cyflwyno, dadansoddi a dehongli data ymchwil ansoddol a meintiol.
- Defnyddio a chymhwyso TGCh.
- Lledaenu a chyhoeddi ymchwil.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion perthnasol. Defnyddir enghreifftiau ymarferol mewn darlithoedd i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol y wybodaeth bynciol a enillwyd.

Dyrennir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 - 100%

Prosiect Ymchwil (6000 o eiriau)

Prosiect ymchwil ar raddfa fach yn canolbwyntio ar ddiddordeb proffesiynol.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Gall myfyrwyr ddewis ymgymryd â phrosiect ymchwil sy'n ymwneud ag ADC	

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD6003C	
Teitl y Modwl	Yr Ymarferydd Adfyfyriol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	British Educational Research Guidelines (BERA, 2011) http://content.yudu.com/Library/A1t9gr/BERAEthicalGui	☒

	deline/resources/index.htm?referrerUrl=	
Hanfodol	Donaldson, G. (2015) <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf	☒
Hanfodol	Fictman-Dana, N. & Ydndol-Hoppey, D. (2008) (2 nd Ed) <i>The Reflective Educator's Guide to Classroom Research: Learning to Teach and Teaching to Learn Through Practitioner</i> . Corwin Press.	☐
Hanfodol	Opie, C. (2004) <i>Doing educational research: a guide to first-time researchers</i> . London: Sage	☐
Hanfodol	Zeni, J. (1998) <i>A guide to ethical issues and action research</i> , Educational Action Research, 6:1, 9-19	☒
Pellach	Aubusson, P., Ewing, R., & Hoban, G (2009) <i>Action Learning in Schools</i> . London: Routledge.	☐
Pellach	Boog, B., Preece, J., & Slagter, M. (Eds) (2008) <i>Towards Quality Improvement of Action Research</i> Sense Publishers	☐
Pellach	Burnafor, G. E., Fischer, J., & Hobson, D. (2001) <i>Teachers doing research: the power of action through inquiry</i> . Mahwah, NJ: Lawrence Erlbaum	☐
Pellach	Campbell, A. & Groundwater-Smith, S. (Ed) (2009) <i>Connecting Inquiry and Professional Learning in Education</i> . London: Routledge. Cochran-Smith, M., & Lytle, S. L (2009) <i>Inquiry as Stance: Practitioner Research in the Next Generation</i> . Teachers' College Press.	☐
Pellach	Cochran-Smith, M. & Lytle, S.L. (2009) <i>Inquiry as Stance: Practitioner Research in the next generation</i> . New York: Teachers' College Press	☒
Pellach	Cohen, L. & Manion, L. (2011) <i>Research Methods in Education 7th edition</i> . London: Routledge.	☐
Pellach	Dadds, M. (1995) <i>Passionate Enquiry and School Development</i> . London: Falmer Press	☐
Pellach	Denscome, M. (2010) (4th ed) <i>The Good Research Guide: for small-scale social research projects</i> . Buckingham: Open University Press	☐
Pellach	Drever, E. (1995) <i>Using semi-structured interviews in small-scale research: a Teacher's Guide</i> . Glasgow: The Scottish Council for Research in Education	☐
Pellach	Gordon, S. P. (2008) <i>Collaborative Action Research: Developing Professional Learning Communities</i> Teachers' College Press	☐
Pellach	Henning, J. E., Stone, J. M. & Kelly, J. L. (2009) <i>Using Action Research to Improve Instruction</i> . London: Routledge.	☐
Pellach	Herr, K. J. & Anderson, G. L. (Eds) (2005) <i>The Action Research Dissertation: A Guide for Students and Faculty</i> . Sage Publications.	☐
Pellach	Lassonde, C. A. & Israel, S. E. (Eds) (2008) <i>Teachers Taking Action: A Comprehensive Guide to Teacher Research</i> . International Reading Association	☐
Pellach	Lewis, I., & Munn, P. (2004) <i>So You Want to Do Research? A Guide for Teacher's on How to Formulate</i>	☐

	<i>Research Questions</i> The SCRE Centre	
Pellach	Lincoln, YS. & Guba, EG. (1985). <i>Naturalistic Inquiry</i> . Newbury Park, CA: Sage Publications.	☐
Pellach	MacNaughton, G. & Hughes, P. (2008) <i>Doing Action Research in Early Childhood Studies: a step-by-step guide</i> . Open University Press	☐
Pellach	Mertler, C. (2008) <i>Action Research: Teachers as Researchers in the Classroom</i> . London: Sage	☐
Pellach	McKernan, J. (1996) <i>Curriculum Action Research: A handbook of methods and resources for the reflective practitioner</i> . 2nd Edition. London: Kogan Page	☐
Pellach	McNiff, J. & Whitehead, J. (2009) <i>Doing and Writing Action Research</i> . Sage Publications	☐
Pellach	Mertler, C. (2008) <i>Action Research: Teachers as Researchers in the Classroom</i> . London: Sage.	☐
Pellach	Pollard, A. (2008) <i>Reflective Teaching</i> . London: Continuum	☐
Pellach	Sagor, R. (2000) <i>Guiding school improvement with Action Research</i> . Association for Supervision and Curriculum	☐

CÔD Y MODWL: ECAD6006C
TEITL: Yr Iaith Ar Daith 3
DYDDIAD: 21/03/2017

LEFEL: 6
CREDYDAU: 20

CÔD JACS: Q560

AMCAN(ION)

- I ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r iaith Gymraeg i lefel uwch.
- I ddatblygu hyder hyfforddeion ymhellach wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac ar bapur.
- I ehangu a chyfoethogi profiad hyfforddeion o gyflwyno'r Gymraeg i blant a'u gwybodaeth o'r cwricwlwm Gymraeg / Cymraeg Ail Iaith.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

- Cyfathrebu yn Gymraeg ar lafar, darllen ac ysgrifennu yn ôl eu cyraeddiadau ieithyddol gan ddangos datblygiad pellach.
- Dadansoddi'n feirniadol fethodolegau addysgu iaith ychwanegol.
- Ymchwilio ac adfyfrio ar strategaethau addas er mwyn cynllunio, paratoi a chyflwyno gweithgareddau gwahaniaethol drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y cwricwlwm a'r sector cynradd.

CYNNWYS DANGOSOL

- Hybir sgiliau llafar, gwrando, deall, darllen ac ysgrifennu trwy ddefnyddio ystod eang o adnoddau, gan ymateb i anghenion grwpiau penodol.
- Sicrhau bod hyfforddeion yn deall rhaglenni astudio'r Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer CA2, ynghyd ag agweddau perthnasol o'r Cwricwlwm Cymreig, wrth baratoi cynlluniau gwersi ac unedau o waith.
- Rhori y cyfle i greu a defnyddio adnoddau addas.
- Gosodir cyd-destun addysgol i'r gwaith ac ystyrir y modd y gellir cymhwyso agweddau ar yr hyn a astudiwyd at gyd-destun y dosbarth cynradd.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Dosberthir yr addysgu fel a ganlyn i gyflwyno'r modwl:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	36	18%
Dysgu annibynnol	164	82%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1 – 40%

Aseiniad ysgrifenedig (2000 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Ymateb beirniadol i erthygl sy'n rhoi tystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o themâu sy'n gysylltiedig ag addysgu'r Gymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg.

Elfen Asesu 2 – 60%

Portffolio Tystiolaeth (cyfwerth â 3000 o eiriau)

Enghraifft o'r math o gwestiwn neu dasg y gellid ei defnyddio:

Cyfres o dasgau portffolio ac adfyfyriad proffesiynol ar y cynnydd a wneir mewn datblygiad iaith bersonol ar gyfer llafaredd, darllen ac ysgrifennu.

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	0%
Gwaith Cwrs	100%
Ymarferol	0%
CYFANSWM	100%

Asesir yr hyfforddeion yn ogystal yn ôl:

- Naill ai'r Dystysgrif Iaith
- Neu lefelau Cynllun Colegau Cymru

ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY (ADC)

Ydy'r modwl yn cyfrannu at ADC?	Ydy
Trwy godi ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru a darparu myfyrwyr â'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cymdeithas ddwyieithog.	

RHESTRAU DARLLEN

Cod y Modwl	ECAD6006C	
Teitl y Modwl	Yr Iaith Ar Daith 3	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Baker, C. (2011) <i>Foundations of Bilingual Education and Bilingualism</i> , 5 th Edition. Clevedon: Multilingual Matters.	☐
Hanfodol	Cook, V.J. (2008) <i>Second Language Learning and Language Teaching</i> , 4th edition. London: Hodder Education.	☐
Hanfodol	Lightbown P. and Spada N. (2006) <i>How languages are learned</i> . Oxford: Oxford University Press.	☐
Hanfodol	Richards, J.C. & Rodgers, T.S. (2001) <i>Approaches and Methods in Language Teaching</i> , 2 nd Edition. Cambridge: CUP.	☐
Hanfodol	Estyn (2013) <i>Supplementary Guidance: Welsh</i> . Cardiff: Crown. https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Supplementary%20guidance%20-%20Welsh.pdf	☒
Hanfodol	WJEC. (1998) <i>Datblygu Cymraeg Pob Dydd yn yr Ysgol Gynradd</i> , Cardiff: WJEC. http://www.cbac.co.uk/uploads/publications/2991.pdf	☒
Pellach	Brown, H.D. (2006) <i>Principles of Language and Teaching</i> , NY: Pearson Brown.	☐
Pellach	Estyn (2013) <i>Supplementary Guidance: Welsh</i> . Cardiff: Crown. https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Supplementary%20guidance%20-%20Welsh.pdf	☒
Pellach	Lightbown P. and Spada N. (2006) <i>How languages are learned</i> . Oxford: Oxford University Press.	☐
Pellach	Richards, J.C. & Rodgers, T.S. (2001) <i>Approaches and Methods in Language Teaching</i> , 2 nd Edition. Cambridge: CUP.	☐
Pellach	Richards, J.C. (2006) <i>Communicative Language Teaching Today</i> . Cambridge: CUP. www.cambridge.org/elt/teacher-support/pdf/Richards-Communicative-Language.pdf	☒
Pellach	Estyn (2015) <i>Guidance for the inspection of primary schools</i> . Cardiff: Crown. https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Guidance%20for%20the%20inspection%20of%20primary%20schools%20-%202015%20handbook.pdf	☒
Pellach	Garcia, O. (2009) <i>Bilingual Education in the 21st Century: A Global Perspective</i> . Chichester, Wiley-Blackwell	☐
Pellach	Talfryn, I. (2001) <i>Dulliau Dysgu Ail Iaith eu hanes a'u datblygiad</i> , Yr Wyddgrug: Popeth Cymraeg	☐
Pellach	Welsh Government (2013b) <i>One language for all - Review of Welsh second language at Key Stages 3 and 4</i> . Cardiff: WG http://gov.wales/docs/dcells/publications/130926-review-of-welsh-second-lan-en.pdf	☒
Pellach	Welsh Government (2014) <i>Evaluating the Foundation Phase: Key Findings on Welsh Language</i> (WISERD).	☒

	Cardiff: Crown http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140717-foundation-phase-welsh-language-en.pdf	
Pellach	Welsh Government (2015) <i>Welsh Second Language KS2/3 Curriculum Document</i> . Cardiff: WG. http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150707-welsh-second-language-cy.pdf	☒
Pellach	Welsh Government (2016) <i>Review of a project to encourage Welsh-medium teaching in English-medium primary schools</i> . Cardiff: Crown. http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160310-evaluation-welsh-medium-education-strategy-final-en.pdf	☒

COD Y MODWL: ECAD6011C
TEITL: Addysgu a Dysgu Mentrus a Chreadigol
DYDDIAD: 21/03/2018

LEFEL: 6
CREDYDAU: 20

COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Datblygu gwybodaeth gysyniadol a dealltwriaeth a ystyriwyd yn feirniadol o addysgegau sy'n datblygu sgiliau creadigol, mentrus ac arloesol mewn dysgwyr.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- Adnabod, nodi a dewis amgylcheddau dysgu sy'n cefnogi datblygiad dysgu ac addysgu creadigol.
- Adfyfrio'n feirniadol ar strategaethau sy'n effeithio ar rôl benodol yr addysgwr wrth ddatblygu addysgegau ac amgylcheddau creadigol ac arloesol.
- Adfyfrio'n feirniadol ar botensial addysgol datblygu menter a chreadigrwydd yn yr ysgol gynradd.
- Arddangos ymwybyddiaeth feirniadol o gyfraniad creadigrwydd a menter i arfer addysgol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Deall yr hyn a olygir wrth greadigrwydd mewn dysgwyr a sut i'w ddatblygu o fewn yr amgylchedd dosbarth cynradd a thrwy ddulliau addysgegol arloesol.
- Trosolwg o ystod ac ansawdd yr adnoddau addysgol sy'n seiliedig ar addysgegau creadigol ac arloesol, gan gynnwys technolegau datblygol ar gyfer addysg gynradd.
- Trafod adnoddau a mentrau addysgol yn feirniadol: diben, cynnwys, cyfredded a chywirdeb.
- Dadansoddi addysgeg a thueddiadau arloesol mewn addysg gynradd.
- Adfyfrio ar ddogfennaeth ymchwil i gefnogi cyflwyno a datblygu creadigrwydd ac addysgeg ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ddysgu.
- Edrych ar sut i hyrwyddo'r defnydd o sgiliau ehangach o fewn ac ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad ac yn enwedig datrys problemau, meddwl yn greadigol a beirniadol.
- Datblygu datrys problemau a dysgu annibynnol yn ogystal â datblygu dysgu gwrthdro a dulliau addysgu eraill.
- Edrych ar sut i ddatblygu strategaethau a dulliau o fewn dysgu sy'n datblygu'r dysgwyr i ddod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol.

- Meddwl cydgyfeiriol a dargyfeiriol: rolau amgylcheddau dysgu creadigol a beirniadol.
- Meddwl craff a dadansoddol: gwahaniaethau a'u heffaith ar ddysgu.
- Addysgeg, Andragogeg a Heutagogeg: Gwahaniaethau ac oblygiadau ar gyfer arfer.
- Gwerthuso ac asesu perfformiad: sut rydym ni'n mesur llwyddiant?

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

Er mwyn darparu cyfle i'r myfyrwyr weld yr arfer ar waith, cynhelir sesiwn dysgu drwy brofiadau cyn darlithoedd a seminarau a thiworialau rhyngweithiol ar-lein. Bydd y rhain yn cyflwyno'r myfyrwyr i gysyniadau, egwyddorion ac arferion er mwyn hwyluso trafodaeth ac ymchwil / gwerthusiad beirniadol o'r technegau a ddysgwyd. Yn ogystal defnyddir astudiaethau achos i helpu datblygu dealltwriaeth a chymhwysiad o'r technegau.

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu yn y modd hwn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Aseiniad ysgrifenedig	5000 o eiriau	100%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD6011C	
Teitl y Modwl	Addysgu a Dysgu Mentrus a Chreadigol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Csikszentmihaly M (2013) <i>Creativity Flow and the Psychology of Discovery and Invention</i> . New York: HarperCollins	☐
Hanfodol	OECD (2016) <i>From Creativity to Initiative: Building Entrepreneurial Competencies in Schools</i> . European Commission; OECD	☒
Hanfodol	Kounios J & Beeman M (2016) <i>The Eureka Factor</i> :	☐

	<i>Creative Insights and the Brain</i> . London: Penguin Random House	
Hanfodol	Runco M (2014) <i>Creativity: Theories and Themes: Research Development and Practice</i> . London: Academic Press / Elsevier	☐
Hanfodol	Sawyer RK (2012) <i>Explaining Creativity: The Science of Human Innovation</i> . Oxford: Oxford University Press	☐
Hanfodol	Sternberg R & Krauss G (eds) (2014) <i>Handbook of Research on Entrepreneurship and Creativity</i> . Cheltenham UK and Massachusetts USA: Edward Elgar Publishing	☒
Hanfodol	Sternberg, R (ed) (2011) <i>Handbook of Creativity</i> . Cambridge: Cambridge University Press	☐
Pellach	Beck C & Kosnik C (2006) <i>Innovations in Teacher Education: A Social Constructivist Approach</i> . New York: State University of New York Press	☐
Pellach	Donaldson, G. (2015) <i>Dyfodol Llwyddiannus</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf	☒
Pellach	Griffin, A. & Burns, M (2014) <i>Teaching Backwards</i> , Carmarthen; Crowne House Publishing	☐
Pellach	Llywodraeth Cynulliad Cymru. (2002) <i>Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 2</i> . Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.	☒
Pellach	Sikes, P. & Potts, A. (eds) (2008) <i>Researching Education from the Inside: Investigations from Within</i> . Oxford: Routledge	☐

COD Y MODWL: ECAD6012C
TEITL: Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol
DYDDIAD: 21/03/2018
LEFEL: 6
CREDYDAU: 20
COD JACS: X100 Hyfforddi Athrawon

AMCAN(ION)

- Darparu trosolwg beirniadol o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i sicrhau dilyniant mewn llythrennedd, mathemateg a chymhwysedd digidol.
- Rhoi'r sgiliau hanfodol i fyfyrwyr allu addysgu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn effeithiol trwy addysgegau trawsgwricwlaidd.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- Amlygu dealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws yr ystod oedran cynradd.
- Bod yn hunangyfeiriol wrth ddewis sgiliau addysgegol effeithiol i fodloni anghenion unigol a sicrhau cynnydd disgyblion.
- Gwerthuso'n feirniadol effaith addysgegau trawsgwricwlaidd ar gynnydd yr holl ddysgwyr mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

CYNNWYS DANGOSOL

- Sicrhau dealltwriaeth drwyadl o'r fframweithiau statudol, y cyd-destun polisi perthnasol a'r cynllun cwricwlwm sy'n briodol i lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
- Datblygu dealltwriaeth ddofn a beirniadol o rwystrau i gynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i blant yng Nghymru.
- Gwerthuso'n feirniadol ystod o fodolau addysgegol ar gyfer dysgu ac addysgu trawsgwricwlaidd.
- Gallu cynllunio uned o waith sy'n datblygu sgiliau mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.
- Nodi adborth effeithiol ac offer asesu i fesur cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

E.e. Bydd darlithoedd yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r cysyniadau, yr egwyddorion a'r arferion. Bydd tiwtorialau a seminarau'n cyflwyno enghreifftiau ymarferol, a ddefnyddir i gefnogi cymhwyso, trafod a gwerthuso'n feirniadol y technegau a ddysgwyd. Yn ogystal, defnyddir astudiaethau achos i ddatblygu dealltwriaeth o'r technegau a'u cymhwyso.

Mae'r amser astudio ar gyfer y modwl wedi ei rannu yn y modd hwn:

Math o weithgaredd	Oriau	Canran
Dysgu ar yr amserlen	40	20%
Dysgu annibynnol	160	80%
Dysgu drwy leoliadau	0	0%
CYFANSWM	200	100%

ASESU

Elfen Asesu 1

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Poster Academaidd	Cyfwerth â 2500 o eiriau	50%

Elfen Asesu 2

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysiad
Traethawd	2500 o eiriau	50%

Crynodeb o'r Asesiad

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	100%
Ymarferol	
CYFANSWM	100%

RHESTR DDARLLEN

Cod y Modwl	ECAD6012C	
Teitl y Modwl	Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd: Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol	
Categori	Eitemau'r Rhestr Ddarllen	Electronig*
Hanfodol	Askew, M. (2011) <i>Transforming Primary Mathematics</i> , Oxon: Routledge	☐
Hanfodol	Didau, D. (2014) <i>The Secret of Literacy</i> , Carmarthen: Crown Publishing.	☐
Hanfodol	Gross, J. (2013) <i>Time to Talk</i> , Fulton: Oxon	☐
Hanfodol	Haylock, D. (2011) <i>Mathematics Explained for Primary Teachers</i> 4th ed, London: Sage	☐
Hanfodol	Haylock, D. and Cockburn, A. (2013) <i>Understanding Mathematics for Young Children</i> . London: SAGE	☐
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. (2014) <i>Asesu ar gyfer dysgu a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131104-assessment-for-learning-and-the-nlwf-cy.pdf	☒

Hanfodol	Llywodraeth Cymru. (2015) <i>Cymwys am oes</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael ar: http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf	☒
Hanfodol	Llywodraeth Cymru. (2016) <i>Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol</i> , Caerdydd: Llywodraeth Cymru. http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/160901-dcf-excel-cy.xlsx	☒
Hanfodol	Payton, S. and Hague, C. (2010). <i>Digital literacy across the curriculum</i> Bristol: Futurelab.	☐
Pellach	Alexander, A. (2008) <i>Towards Dialogic Teaching, Rethinking Classroom Talk</i> , London: Dialogos.	☐
Pellach	Bird, J. (2014) <i>Lessons in teaching computing in primary schools</i> . United Kingdom: SAGE Publications	☐
Pellach	Caldwell, H. and Bird, J. (2015) <i>Teaching with Tablets</i> . United Kingdom: SAGE Publications	☐
Pellach	Hanson, A. (ed.) (2011) <i>Children's Errors in Mathematics: Understanding Common Misconceptions in the Primary School</i> , London: Sage	☐
Pellach	McAteer, M. (ed.) (2013) <i>Improving Primary Mathematics Teaching and Learning</i> , Berkshire: Open University Press	☐
Pellach	Oakhill, J. (2015) <i>Understanding and Teaching Reading Comprehension</i> , Routledge: London.	☐
Pellach	Pound, L. and Lee, T. (2010) <i>Teaching Mathematics Creatively</i> , Routledge: Oxon	☐
Pellach	Rowland, T., Turner, F., Thwaites, A. and Huckstep, P. (2009) <i>Developing Primary Mathematics Teaching: Reflecting on Practice with the Knowledge Quartet</i> , London: Sage.	☐
Pellach	Savage, M. and Barnett, A. (2015) <i>Digital literacy for primary teachers</i> . United Kingdom: Critical Publishing	☐
Pellach	Taylor, H. and Harris, A. (2013) <i>Learning and Teaching Mathematics 0-8</i> , London: Sage	☐
Pellach	Turvey, K., Sharp, J. and Potter, J. (2016) <i>Primary computing and digital technologies: Knowledge, understanding and practice</i> . London, United Kingdom: SAGE Publications	☐
Pellach	Waugh, David. (2015) <i>Teaching Grammar, Spelling and Punctuation in the Primary School</i> , Learning Matters: London.	☐